Adolygiad o Wariant 2002

Cynlluniau Gwariant Cyhoeddus Newydd 2003–2006

Cyfle a diogelwch i bawb:

Buddsoddi mewn Prydain arloesol, decach

HM TREASURY

Gorffennaf 2002

Cyfle a Diogelwch i Bawb

Ar sylfaen o sefydlogrwydd economaidd, noda Adolygiad o Wariant 2002 gynlluniau gwariant cyhoeddus y Llywodraeth ar gyfer y blynyddoedd o 2003-04 hyd at 2005-06, gan barhau i fodloni'r rheolau ariannol, cyfateb adnoddau â phrosesau diwygio, a sicrhau o fewn economi fyd-eang y bydd gwasanaethau cyhoeddus effeithlon a chadarn yn cyflwyno gwell cyfle a diogelwch nid yn unig i rai, ond i bawb.

Mae'r Adolygiad o Wariant yn canolbwyntio ar yr amcanion allweddol canlynol:

- Cynyddu cynhyrchiant
- Ymestyn cyfleoedd
- Cymunedau cadarn a diogel
- Prydain yn y byd

...gan fuddsoddi ym meysydd blaenoriaeth y Llywodraeth sef:

- **addysg:** bydd y gwariant yn Lloegr yn cynyddu 6.0% y flwyddyn gan ddechrau eleni hyd at 2005-06, cynnydd o £12.8 biliwn y flwyddyn erbyn 2005-06, gan ddod â'r gwariant ar addysg yn y DU i 5.6% o'r CMC ac adeiladu ar y gwelliannau a wnaed eisoes;
- **iechyd:** gan adeiladu ar gyhoeddiad y Gyllideb o dwf mewn termau real o 7.3% y flwyddyn ar wariant ar iechyd yn y DU, mae'r Adolygiad o Wariant yn pennu targedau newydd ymestynnol o ran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;
- **trafnidiaeth:** parhau i ariannu'r Cynllun Deng Mlynedd ar gyfer Trafnidiaeth, gan gynyddu gwariant ar drafnidiaeth yn y DU 8.4% y flwyddyn ar ôl chwyddiant er mwyn gwella teithio ar y rheilffyrdd a mynd i'r afael â thagfeydd ar y ffyrdd;
- **tai:** darparu £1 biliwn ychwanegol y flwyddyn erbyn 2005-06 i'w fuddsoddi mewn tai fforddiadwy, a diwygio'r system gynllunio;
- **troseddau:** bydd gwariant ar yr heddlu yn Lloegr tua £1.5 biliwn y flwyddyn yn uwch erbyn 2005-06 o'i gymharu â 2002-03, er mwyn lleihau troseddau sy'n ymwneud â cherbydau 30% a bwrgleriaethau tai 25% erbyn 2004;
- **amddiffyn:** darparu'r cynnydd mwyaf o ran gwariant amddiffyn ers 20 mlynedd. Bydd adnoddau amddiffyn yn cynyddu 1.2% y flwyddyn mewn termau real yn ystod y tair blynedd hyd at 2005-06;
- **cymorth rhyngwladol:** cynyddu cyfran y cyfoeth cenedlaethol a ddyrennir i gymorth rhyngwladol i 0.40% o'r CMC, er mwyn adeiladu ar

Buddsoddi er mwyn gweld canlyniadau…

Cyflwynir y buddsoddiad hir dymor a nodir yn yr Adolygiad hwn o Wariant ar sylfaen o sefydlogrwydd, gyda chwyddiant isel, a chyllidebau cyhoeddus cadarn.

Ar y sylfaen hon:

- bydd gwariant ar wasanaethau cyhoeddus (Terfynau Gwariant Adrannol) £61 biliwn y flwyddyn yn uwch erbyn 2005-06 o'i gymharu â 2002-03;
- gwerir 75% o'r cynnydd hwn ar flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth sef addysg, iechyd, trafnidiaeth, tai a'r frwydr yn erbyn troseddau;

Cyfrannau o'r cynnydd arfaethedig mewn gwariant cyhoeddus



Cynnydd o ran terfynau gwariant adrannol a gwariant a ariennir yn lleol

- bydd buddsoddiad cyhoeddus yn cyrraedd 2% o'r CMC erbyn 2005-06, sef £25 biliwn y flwyddyn.

Mynnu diwygio…

Mae'r Llywodraeth yr un mor benderfynol o sicrhau gwerth am arian ag y mae o sicrhau bod arian ar gael i'r gwasanaethau gorau – gyda mwy o arian yn cael ei fuddsoddi, bydd angen mwy o ganlyniadau. Felly ym mhob maes o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, mae'r Llywodraeth yn ymrwymo adnoddau i sicrhau diwygiadau a chanlyniadau:

- pennu targedau ymestynnol i bob adran fel amod o roi adnoddau newydd;
- archwiliadau ac arolygiadau annibynnol i fonitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn: datganoli pŵer o'r canol i staff y rheng flaen, gan roi'r pŵer a'r hyblygrwydd iddynt ddarparu'r gwasanaeth; a
- gwobrwyo llwyddiant ac adfer gwasanaethau a sefydliadau sy'n methu.

Cynyddu cynhyrchiant

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gynyddu cyfradd hir dymor twf cynhyrchiant yn y DU, gan leihau'r bwlch cynhyrchiant, er mwyn i Brydain allu bod yn fwy llewyrchus a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn yr economi fyd-eang.

Mae Adolygiad o Wariant 2002 yn cymryd camau pellach mewn pum maes a all roi hwb i'r gyfradd twf cynhyrchiant – atgyfnerthu cystadleuaeth, menter ac arloesedd, sgiliau, buddsoddi a chynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus. Yn arbennig, mae'r Adolygiad o Wariant yn:

- gweithredu'r Cynllun Deng Mlynedd ar gyfer Trafnidiaeth, gyda chynnydd blynyddol o 8.4% ar gyfartaledd mewn termau real ar drafnidiaeth yn y DU, er mwyn gwella teithio ar y rheilffyrdd a mynd i'r afael â thagfeydd ar y ffyrdd;

Gwariant ar drafnidiaeth yn y DU



NODYN: Mae ffigurau'r DU yn ddarostyngedig i benderfyniadau'r gweinyddiaethau datganolegdig.

- cynyddu'r gwariant ar wyddoniaeth er mwyn sicrhau y bydd tua £1¼ biliwn yn uwch erbyn 2005-06 o'i gymharu â 2002-03;
- pennu targed newydd i gyflawni gwell cydbwysedd rhwng argaeledd tai a'r galw am dai ym mhob un o ranbarthau Lloegr tra'n diogelu cefn gwlad gwerthfawr o amgylch ein trefi a'n dinasoedd ac o fewn ardaloedd gwregys glas, wedi'i ategu gan ddiwygiadau cynllunio ac adnoddau newydd i'w buddsoddi mewn tai; a
- gwneud buddsoddiad sylweddol i adfywio addysg bellach, ac yn ymrwymo'r Llywodraeth i wella sgiliau sylfaenol 1.5 miliwn o oedolion rhwng 2001 a 2007.

Ymestyn cyfleoedd

Drwy ganolbwyntio'n gryf ar addysg, mae'r Adolygiad hwn o Wariant yn ceisio dymchwel unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag gwireddu eu llawn botensial:

- mae'r Adolygiad hwn o Wariant yn cyflwyno twf real blynyddol o 5.8% ar gyfartaledd o ran gwariant ar addysg yn y DU, a fydd £14.7 biliwn yn uwch yn 2005-06 o'i gymharu â 2002-03;



NODYN: Mae ffigurau'r DU yn ddarostyngedig i benderfyniadau'r gweinyddiaethau datganoledig.

- mae'r cynlluniau newydd yn golygu y bydd gwariant ar addysg yn y DU yn cynyddu i 5.6% o'r CMC erbyn 2005-06, gan gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i gynyddu cyfran yr incwm cenedlaethol a werir ar addysg. Y gyfradd twf blynyddol ar gyfartaledd ar gyfer addysg yn Lloegr yw 6.0% y flwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf, sef cynnydd o £12.8 biliwn y flwyddyn erbyn 2005-06.

Ategir y cynnydd sylweddol hwn mewn adnoddau gan fesurau penodol:

- bydd y Grant Safonau Ysgolion yn darparu taliadau uniongyrchol i benaethiaid gwerth £50,000 y flwyddyn ar gyfer ysgol gynradd nodweddiadol gan gynyddu i £165,000 y flwyddyn ar gyfer ysgol uwchradd nodweddiadol;
- bydd ffocws newydd ar amddifadedd a grant arweinyddiaeth newydd ar gyfer ysgolion uwchradd mewn ardaloedd tlotach gwerth £125,000 yr un allan o gronfa o £175 miliwn bob blwyddyn hyd at 2005-06;
- mae'r Adolygiad hwn o Wariant yn ymestyn rhaglen Academi'r Ddinas sy'n cynnig cymorth pellach i ysgolion sy'n wynebu anawsterau difrifol; ac mae'r fenter Rhagoriaeth mewn Dinasoedd yn darparu mwy o fentoriaid dysgu ac Unedau Cymorth Dysgu i helpu disgyblion sydd mewn perygl o fynd ar ei hôl hi.

Mae rhaglen y Llywodraeth wedi'i chynllunio i sicrhau y rhoddir y dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn:

- mae'r rhaglen addysg yn darparu arian i 522 o raglenni Cychwyn Cadarn ac 20 o raglenni Cychwyn Cadarn Atodol i ddarparu'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn o dan bedair oed sy'n byw mewn tlodi;
- drwy fwy na dyblu'r arian a ddyrennir i ofal plant mae'n sicrhau y bydd 250,000 yn fwy o leoliadau gofal plant erbyn 2006.

Cymunedau cadarn a diogel

Mae'r Adolygiad hwn o Wariant yn ceisio hyrwyddo cymunedau cadarnach, mwy diogel, lle y bydd cyfrifoldebau yn cyfateb â hawliau.

Yn yr Adolygiad hwn, mae'r Llywodraeth yn:

- darparu adnoddau ychwanegol i'r rheng flaen i'r heddlu drwy ariannu Unedau Rheoli Sylfaenol yn uniongyrchol;
- targedu troseddau a'u hachosion, gyda ffocws penodol ar yr ardaloedd hynny lle ceir y cyfraddau troseddu uchaf, drwy'r Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn. Ategir targedau lleihau troseddau ymestynnol gan ymrwymiadau i wella perfformiad yr heddlu ymhob ardal;
- dyrannu £1 biliwn ychwanegol y flwyddyn i dai erbyn 2005-06 er mwyn sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol mewn cyflwr gweddousl erbyn 2010; ac
- adeiladu ar y weledigaeth a nodwyd yn y Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol, a darparu cynnydd mewn grant cyffredinol o 3.9% y flwyddyn ar gyfartaledd mewn termau real hyd at 2005-06. Mae hefyd yn nodi gweledigaeth newydd ar gyfer natur leol, gyda chyfrifoldeb yr heddlu yn cael ei ddatganoli i'r rheini sy'n darparu gwasanaethau yn y rheng flaen.

Prydain yn y byd

Er bod bydoli yn cyflwyno cyfleoedd heb eu hail, daw hefyd ag ansicrwydd newydd. Mae Adolygiad o Wariant 2002 yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn, gan fynd i'r afael ag ansicrwydd y byd sydd ohoni, drwy fuddsoddi ym maes amddiffyn, datrys gwrthdaro, materion tramor a datblygiadau rhyngwladol.

Yn arbennig, mae'r Adolygiad hwn yn:

- darparu'r cynnydd mwyaf o ran gwariant ar amddiffyn ers 20 mlynedd. Bydd adnoddau amddiffyn yn cynyddu 1.2% y flwyddyn mewn termau real yn ystod y tair blynedd hyd at 2005-06;

Cymorth y DU fel cyfran o'r incwm cenedlaethol



- cynyddu cyfran yr incwm cenedlaethol a ddyrennir i gymorth datblygu tramor (ODA) i 0.40% er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaed wrth leihau nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi ledled y byd;
- canolbwyntio'r cynnydd hwn ar gyfraniad y DU tuag at gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm. Cyfeirir 90% o'r cymorth dwyochrog tuag at wledydd tlotaf y byd erbyn 2005-06;
- cynlluniau ar gyfer gwariant uwch ar rwydwaith a rhaglenni diplomataidd y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad;
- galluogi cyrff diplomatiaeth cyhoeddus arbenigol byd-enwog y DU – BBC World Service a'r Cyngor Prydeinig – i ehangu eu gweithgareddau ac i arloesi wrth gyflwyno gwasanaethau; a
- darparu adnoddau sylweddol fwy ym maes cudd-wybodaeth a diogelwch, wedi'u hategu gan ymrwymiad gan bob rhan o'r llywodraeth i wella gwydnwch.

Er mwyn archebu copïau pellach o'r daflen hon, cael fersiwn Saesneg neu fformat amgen, ffoniwch:

0845 601 1041

I gael mwy o fanylion am yr Adolygiad o Wariant, ymwelwch â gwefan y www.hm-treasury.gov.uk.

Ceir mwy o fanylion am y cynlluniau gwariant cyhoeddus newydd yn 'Cyfle a diogelwch i bawb: Buddsoddi mewn Prydain arloesol, decach' sydd ar gael gan y Llyfrfa a llyfrwerthwyr da.